Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

## Cyflwyniad

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn arolygu ac yn rheoleiddio'r holl ofal iechyd yng Nghymru. Os ydych o'r farn nad yw AGIC wedi dilyn y gyfraith, rheoliadau neu ganllawiau, efallai y gallwn edrych ar eich cwyn.

Dyma brif gyfrifoldebau AGIC:

- cynnal arolygiadau, adolygiadau ac ymchwiliadau i wasanaethau gofal iechyd y GIG;
- cofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn cynnwys ymchwilio i bryderon gan aelodau o'r cyhoedd fod darparwr annibynnol wedi torri'r rheoliadau sy'n llywodraethu ar ei weithredoedd;
- darparu gwasanaeth adolygu ym maes iechyd meddwl, yn cynnwys gweithredu Deddf Iechyd Meddwl 1983 a darparu gwasanaeth Meddyg a Benodir i roi Ail Farn i gleifion sy'n cael eu trin a'u cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl; a
- monitro Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gan y GIG sy'n cael eu rhoi ar waith

## Yr hyn gallwn ei wneud

Gallwn:

- edrych ar gwynion am ddiffygion gweithdrefnol a gweinyddol sy'n dod o arolygiad neu adolygiad AGIC o Wasanaeth a Reoleiddir (yn cynnwys gweithredoedd sy'n gysylltiedig â chwyn neu bryder);
- edrych ar gwynion am ddiffygion gweithdrefnol a gweinyddol sy'n dod o arolygiad neu adolygiad ganAGIC o wasanaethau'r GIG;
- edrych ar gwynion lle nad yw AGIC wedi rhoi ymateb; edrych ar gwynion am broses adrodd AGIC;
- edrych ar gwynion ynghylch trefniadau gweinyddu gwael gan AGIC.

## Yr hyn na allwn ei wneud

Ni allwn:

- edrych ar unrhyw faterion yn ymwneud ag atal o'r gwaith, disgyblu neu faterion personél yn ymwneud â swyddogion AGIC neu'r swyddogion hynny o'r gwasanaethau y mae AGIC yn ymchwilio iddynt;
- edrych ar gamau a gymerwyd gan AGIC ynglŷn â mater sy'n cael ei ystyried gan y llysoedd neu sydd wedi cael ei ystyried ganddynt;
- cwestiynu penderfyniad priodol y mae gan AGIC hawl i'w wneud.

## Materion i gadw mewn cof

Nid rôl yr AGIC yw delio â chwynion gan gleifion am y driniaeth a gawsant gan y GIG. Dyma fater y gellir delio ag ef o dan drefn gwyno'r GIG. Fodd bynnag, efallai y bydd AGIC yn gweithredu ar unrhyw wybodaeth a allai awgrymu methiannau systematig yng ngwasanaethau'r GIG. Yn yr un modd, nid rôl yr AGIC yw delio â chwynion gan gleifion am driniaeth a gawsant gan ddarparwyr gofal iechyd annibynnol. Fodd bynnag, gall AGIC edrych ar gwynion a phryderon gan gleifion a gweithwyr proffesiynol fod darparwyr annibynnol o bosib wedi torri'r rheoliadau perthnasol.

Lle nad yw darparwyr gwasanaethau neu bobl sydd wedi cofrestru ag AGIC yn fodlon ag unrhyw gamau cofrestru neu orfodi y mae AGIC wedi'u cymryd, dylid delio â'r cwynion hyn drwy'r llwybrau a ddarparwyd yn benodol at y diben hwn.

## Gwybodaeth bellach

Ceir gwybodaeth bellach am AGIC, yn cynnwys ei threfn gwyno, ar ei gwefan: https://www.hiw.org.uk.

## Cysylltu â ni

Os ydych yn ansicr a fyddwn yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni, drwy ffonio 0300 790 0203.

# Hawdd ei Ddarllen

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru